
Aseiad Cystadleuaeth ar BBC Scotland

Penderfyniad terfynol Ofcom

Datganiad

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mehefin 2018

1. Crynodeb

- 1.1 Mae Ofcom yn dymuno gweld cynulleidfaoedd yr Alban yn cael gwasanaeth da gan y BBC a'r sector darlledu drwyddo draw. Mae nifer o wasanaethau teledu yn cael eu darparu yn yr Alban ar hyn o bryd, gan gynnwys gan y BBC, STV, ac MG ALBA, sef y Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg. Y llynedd, fe wnaeth y BBC gyhoeddi bod sianel deledu newydd ar gyfer yr Alban yn mynd i gael i lansio yn Chwefror 2019.
- 1.2 Er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, rhaid i Ofcom bwysu a mesur newidiadau mawr y mae'r BBC yn dymuno eu gwneud i'w wasanaethau cyhoeddus ar deledu, radio ac ar-lein cyn y gall newidiadau o'r fath fynd yn eu blaenau. Yn dilyn cyhoeddi Prawf Lles y Cyhoedd ym mis Tachwedd 2017, fe wnaeth Ofcom ddechrau ar asesiad cystadleuaeth y BBC ("BCA") mewn perthynas â'r sianel newydd. Fel rhan o hyn, mae Ofcom wedi comisiynu ymchwiliadau ymysg defnyddwyr, mae wedi gwneud dadansoddiadau economaidd ac mae wedi ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Ar 20 Ebrill 2018, fe wnaethon ni gyhoeddi ymgynghoriad ar ein penderfyniad dros dro. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 18 Mai 2018. Dyma gyhoeddi ein penderfyniad terfynol heddiw.
- 1.3 Mae asesiad cystadleuaeth BCA yn adolygu'r gwerth cyhoeddus y mae'r BBC wedi dweud y bydd y cynnig yn ei ddarparu, ynghyd ag asesiad o effaith y cynnig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Yna, mae Ofcom yn asesu a yw gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.
- 1.4 Mae Ofcom yn cytuno â'r BBC y bydd y sianel arfaethedig yn ehangu'r dewisiadau sydd ar gael i wylwyr yn yr Alban, bydd y rhaglenni newyddion yn canolbwyntio mwy ar yr Alban a bydd yn cyflwyno rhagor o gynnwys sydd wedi'i ddylunio i adlewyrchu bywydau pobl yn yr Alban. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cytuno'n fras y byddai cynnig y BBC yn cael canlyniadau cadarnhaol i'r Alban a chynulleidfaoedd yn yr Alban. Mae rhanddeiliaid yn cwestiynu a fyddai'r gyllideb i'r sianel newydd yn ddigon i'r BBC allu cyflawni ei gynlluniau, ac maent wedi galw am fuddsoddiad ychwanegol neu ffocws gwahanol i'r sianel. Er nad oes manylion llawn ar gael eto am amserlen y sianel, rydyn ni wedi ein bodloni y bydd y cynnig fel y mae yn darparu gwerth cyhoeddus. Mater i Fwrdd y BBC yw penderfyniadau strategol a chyllidebol y BBC.
- 1.5 Mae disgwyl i'r sianel newydd gael effaith ar ffigyrau gwyltio sianelau darlledu eraill. Ond nid ydym yn credu y byddai'r sianel arfaethedig yn cael effaith fawr a niweidiol ar gymhellion darlledwyr i arloesi neu fuddsoddi mewn cynnwys newydd ar gyfer yr Alban. Nid ydym yn credu chwaith y bydd cynnig y BBC yn arwain at newid sylweddol yn ei arlwy ar-lein. Ac rydyn ni'n ystyried y byddai cynnig y BBC, yn ei ffurf bresennol, yn annhebygol o gael effaith negyddol sylweddol ar ddarpariaeth newyddion print ac ar-lein. Yn olaf, o'r 80 o newyddiadurwyr newydd mae'r BBC yn bwriadu eu cyflogi, bydd tua hanner yn gweithio ym meysydd newyddion ac nid ydym o'r farn fod hyn yn fygythiad i alluoedd y papurau newyddion yn yr Alban i ddenu neu i gadw newyddiadurwyr.
- 1.6 Mae gweithgareddau'r BBC yn siŵr o gael effaith ar gystadleuaeth, ac nid swyddogaeth Ofcom yw dileu holl effeithiau cystadleuaeth. Yn hytrach, rhaid i ni sicrhau bod modd

cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol oherwydd y gwerth cyhoeddus sy'n cael ei greu. Fel y nodir uchod, rydyn ni'n disgwyl i'r sianel newydd gael rhywfaint o effaith ar y farchnad, yn enwedig ar sianeli darlledu eraill yn yr Alban. Ond yn ein barn ni, byddai modd cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol oherwydd y gwerth cyhoeddus a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cynnig. Am y rheswm hwnnw, caiff y BBC fwrw ymlaen â'r gwasanaeth fel yr hysbyswyd.

1.7 Mae ein hasesiad ni o'r gwerth cyhoeddus a'r effaith ar y farchnad yn ymwneud â'r cynnig fel y cafodd ei gyflwyno i ni. Bydd angen i Fwrdd y BBC fonitro bod y cynnig yn cael ei weithredu fel y cafodd ei nodi yn y prawf lles y cyhoedd, ac ystyried yr effeithiau ehangach ar wasanaethau eraill y BBC a thrydydd partïon petai'r cynnig yn cael ei ehangu rhagor, er enghraifft mewn perthynas â gweithgareddau'r BBC ar-lein. Petai'r BBC yn gwneud newidiadau mawr i'w wasanaeth, byddai angen i'r BBC gynnal prawf arall ar les y cyhoedd. Hefyd, bydd rhaglen Ofcom i fonitro'r BBC yn cofnodi gweithgareddau'r BBC yn yr Alban. Os yw arlwy'r BBC yn newid yn sylweddol, byddwn ni'n ystyried a oes angen cynnal aseiad cystadleuaeth arall.

1.8 I gloi, dyma'r tro cyntaf i Ofcom gynnal aseiad cystadleuaeth BCA ers i ni ddod yn rheoleiddiwr allanol y BBC yn Ebrill 2017. Yn gyffredinol, mae'r ffordd mae'r BBC wedi ymgysylltu ag Ofcom wedi bod yn agored ac mae'r broses o gynnal prawf lles y cyhoedd wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, rydyn ni'n ystyried bod rhaid i brosesau'r BBC, mewn rhai meysydd, esblygu a bod yn fwy tryloyw er mwyn sicrhau bod ymgysylltiad adeiladol yn digwydd gyda thrydydd partïon.